**Eitem ar yr agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 6ed Mawrth 2008 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 10 y bore.

**Presennol:**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); J Kennedy (Dirprwy Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); G Brandrick (Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth; K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); M Hughes (Rheolwr y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu); D Mottram (Rheolwr Cefnogi Gweithredol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); L Gutierrez-Jones (Rheolwr Adnoddau Dynol); S Fysh (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau – arsylwr)a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

I R Miller Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod

**2) Rhybudd am Faterion Brys**

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau nad oedd unrhyw eitemau brys wedi eu cyflwyno iddo ef nac i'r Dirprwy Swyddog Monitro ar gyfer eu hystyried.

Cyn cychwyn ar faterion y cyfarfod, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Panel bod cyhoeddiad wedi ei wneud yn ddiweddar bod Dirprwy Brif Swyddog Tân y Gwasanaeth wedi ei benodi yn Ddirprwy Brif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub Stoke-on-Trent a Swydd Stafford. Anfonwyd llythyr at holl aelodau'r Awdurdod yn rhoi gwybod iddynt am y penodiad hwn. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gydag Awdurdod Tân ac Achub Stoke-on-Trent a Swydd Stafford er mwyn cytuno ar ddyddiad fyddai'n dderbyniol i bawb iddo gychwyn ar ei swydd newydd. Ymunodd yr aelodau gyda'r Prif Swyddog Tân i longyfarch Mr Enness ar ei benodiad ac i ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd.

Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân wybod i'r Panel bod y Gwasanaeth wedi derbyn Asesiad Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar. Yn 2007, cafodd y Gwasanaeth Wobr Iechyd Corfforaethol Safon Arian. Dyfarnwyd hon ar yr amod fod y Gwasanaeth yn fodlon anelu at Wobr Safon Aur o fewn 12 mis. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Gwasanaeth, yn dilyn asesiad ar 21ain Chwefror 2008, wedi derbyn y wobr Safon Aur. Roedd y wobr hon yn cydnabod cyfraniad y Gwasanaeth i faes gwella iechyd personél a lles yn y gweithle. Y cam nesaf fyddai i'r Gwasanaeth, o fewn y deuddeg mis nesaf, weithio tuag at uwchraddio'r Wobr Aur i Wobr Blatinwm – a dod yr awdurdod cyntaf Cymru i ymgeisio am y lefel hon. Y bwriad oedd defnyddio prosiect Tân1af y Rhyl fel catalydd ar gyfer y cais hwn.

O ran y prosiect Tân 1af dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) wrth yr aelodau y derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar fod grant o £250K wedi ei ddyfarnu i'r prosiect o Gynllun Grant Gwella Trefi ac Amgylchedd Adran yr Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Llongyfarchodd yr aelodau a'r swyddogion Reolwr Diogelwch Sirol Sir Ddinbych, Mr Alyn Edwards, a'i dîm am eu gwaith ardderchog yn sicrhau'r cyllid gwerthfawr hwn. Hefyd, roedd ei waith yn ymwneud â'r prosiect hwn wedi ei gydnabod yn ddiweddar gyda 'Gwobr Cyfraniad Unigolyn i Ddiogelwch Tân' yn Noson Gwobrwyo'r Gymuned y Gwasanaeth.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai cyd enillydd y wobr uchod, Mr Kevin Hughes, Uwch Reolwr Diogelwch Tân y Gwasanaeth, yn ymddeol yn ystod Mai 2008. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau y byddai'n gwneud cyhoeddiad ynglŷn â hyn a materion eraill yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 17eg Mawrth 2008.

**3) Cofnodion**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 5ed Chwefror 2008

***Penderfynwyd:* - cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

## 4) Materion yn Codi

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion:

**Tudalen 3 – Eitem 4 'Materion yn Codi':** rhoddodd yr Is-Gadeirydd wybod i'r aelodau nad oedd yr is-banel a benodwyd i gyfarfod â'r Clerc/Swyddog Monitro newydd arfaethedig er mwyn trafod y penodiad, wedi llwyddo eto i hwyluso cyfarfod gyda deiliad arfaethedig y swydd. Dywedodd y Cadeirydd fod nifer o ddyddiadau newydd wedi eu cynnig bellach ar gyfer y cyfarfod hwn ac y byddai'n gofyn i aelodau'r is-banel gytuno ar ddyddiad cyfleus ar ddiwedd y cyfarfod presennol.

**Tudalen 7 – Eitem 8, 'Adolygu Polisi'r Awdurdod ar Ailgyflogi Aelodau o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn dilyn Ymddeoliad':** dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau fod copi o'r Polisi diwygiedig wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau'n ddiweddar yn unol â chais y Panel.

## 5) Cynigion i'w cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Drafft Cynllun Lleihau Risg 2009/10

Dosbarthodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) gopïau i'r Panel o'r cynigion yr oedd y Gweithgor Cynllun Lleihau Risg wedi cytuno arnynt yn eu cyfarfod yn gynharach yr wythnos honno, ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Drafft Cynllun Lleihau Risg 2009/10, ac y byddai yn ceisio cytundeb y Panel i'w hargymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Mawrth 2008. Eglurodd y Cadeirydd wrth y Panel fod y Gweithgor wedi derbyn cyflwyniad ac eglurhad manwl ar y cynnig yn ymwneud ag adolygu y ddarpariaeth swyddogion wrth gefn. Ar fater sefydlu Gweithgor er mwyn ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o'r Gwasanaeth, dywedwyd wrth yr aelodau fod disgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru, cyn bo hir, gyhoeddi ei darganfyddiadau yn dilyn ei ymarfer diweddar ar graffu ag ymgysylltiad aelodau o fewn yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad hwn yn debygol o dynnu sylw at yr angen i aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Panel Gweithredol chwarae mwy o ran yng ngwaith yr Awdurdod, o bosibl, mewn rôl craffu.

***Penderfynwyd*: - y dylid paratoi adroddiad i'w gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17eg Mawrth 2008 yn ceisio cadarnhad yr Awdurdod i gynnwys yr argymhellion canlynol yn ei Gynllun Gweithredu Drafft y Cynllun Lleihau Risg 2009/1, sef:**

*i.* ***Cynnig 1: cynnal adolygiad o'r ddarpariaeth swyddogion wrth gefn: drwy adolygu'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn cyflenwi ddarpariaeth swyddogion wrth gefn gan reolwyr canol ac uwch reolwyr mewn digwyddiadau argyfwng, fe allai'r Awdurdod ddatblygu 'opsiwn ymateb***

***penodol' a darparu 'sicrwydd gweithredol mewn digwyddiadau'. Byddai hyn yn sicrhau fod y nifer angenrheidiol o bersonél yn cynnal eu galluoedd gweithredol tra byddai'r Awdurdod yn gwireddu effeithiolrwydd er mwyn buddsoddi mewn meysydd eraill o waith y Gwasanaeth;***

ii. ***Cynnig 2: bod yr aelod criw penodol ar gyfer Peiriant ag Ysgol ac Esgynlawr ar bob Peiriant yn cael ei drosglwyddo i swyddogaeth Diogelwch Tân Cymunedol er mwyn darparu gwaith Diogelwch Tân Cymunedol. Byddai'r personél gweithredol hyn yn parhau i dderbyn cyfleon hyfforddi a datblygu er mwyn cynnal eu galluoedd gweithredol fel y byddent ar gael er mwyn gallu galw arnynt i ymgymryd â dyletswyddau gweithredol yn ystod cyfnodau prysur neu gyfnodau eithriadol;***

iii. ***Cynnig 3: cynnal adolygiad o'r trefniadau arlwyo presennol mewn gorsafoedd tân a sefydliadau eraill y Gwasanaeth;***

iv. ***Cynnig 4: sefydlu gweithgor bychan yn cynnwys aelodau, swyddogion a chynrychiolwyr o gyrff cynrychioladol y staff er mwyn cynnal adolygiad eang ei amrediad i safonau ymateb tân a risgiau eraill o fewn y gymuned; yr adnoddau sydd ar gael i'r Gwasanaeth fynd i ymateb i'r risgiau hynny a lleoliad yr adnoddau hynny. Byddai darganfyddiadau'r Gweithgor hwn yn ffurfio sail ar gyfer Cynllun Lleihau Risg llawn nesaf yr Awdurdod ar gyfer 2010/2011.***

Cyn cychwyn y drafodaeth ar y mater hwn, datgelodd y Cynghorydd J A Roberts ddiddordeb fel perthynas i swyddog, a gyflogwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, oedd yn gweithio'r System Ddyletswydd Hyblyg ac yn darparu gwasanaeth swyddog gweithredol wrth gefn. O ganlyniad, ni chymerodd y Cynghorydd Roberts unrhyw ran yn y drafodaeth na'r bleidlais ar y cynnig cyntaf.

**6) Cynllun Rheoleiddio Drafft 2007/08**

Croesawyd Mr Rob Powell, Rheolwr Cydberthnasau, o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod er mwyn cyflwyno Cynllun Rheoleiddio Drafft yr Awdurdod 2007/08 (dosbarthwyd ymlaen llaw) i'r aelodau. Cyflwynodd Mr Gilbert Lloyd, Partner Ymgysylltu, a Ms Catherine Griffiths, Rheolwr Archwilio, y ddau o KPMG, archwilwyr allanol newydd yr Awdurdod i'r aelodau. Aeth yr Archwilwyr yn eu blaenau wedyn i egluro cynnwys eu hadroddiad i'r Panel, oedd yn manylu ar yr amrywiol archwiliadau y byddai Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG yn eu cynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2007/08. Wrth ymateb i gwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd yr archwilwyr bod eu ffioedd am eu gwaith gyda'r Awdurdod yn gyson â'r ffioedd a godwyd ar awdurdodau tân ac achub eraill. Er nad oedd y dull o gyfrifo ffioedd archwilio'n cymryd i ystyriaeth y setliad Grant Cynnal Refeniw is na'r cyfartaledd ar gyfer awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09, roedd y ffioedd wedi eu pennu yn seiliedig ar y cynllunio ar gyfer archwilio yr oedd ei angen ymlaen llaw a'r nifer disgwyliedig o wythnosau dros y cyfnod o ddeuddeg mis y byddai'n rhaid i staff archwilio eu treulio'n gweithio yn neu o fewn yr Awdurdod. Cynigiodd yr archwilwyr penodedig eu cymorth i'r Awdurdod mewn perthynas â mabwysiadu Datganiad Llywodraethu CIPFA/SOLACE fyddai'n disodli'r Datganiad Rheolaeth

Fewnol (SIC) presennol yn y pen draw. Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cyflwyno'r Datganiad ar gyfer 2007/08, roedd hyn bellach wedi ei ohirio. Rhoddasant wybod i'r aelodau hefyd y byddent yn cynorthwyo'r Awdurdod wrth sefydlu gwell trefniadau craffu.

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi cynnwys yr adroddiad.***

## 7) Cyflwyno Safonau Adrodd Cyllid Rhyngwladol (IFRS) i'r sector gyhoeddus

Rhoddodd Mr Gilbert Lloyd, Partner Ymgysylltu o KPMG, wybod i'r Panel am y Safonau Adrodd Cyllid Rhyngwladol (IFRS) oedd ar fin cael eu cyflwyno. Roedd awdurdodau lleol eisoes wedi gohirio cyflwyno'r IFRS hyd 2010/11 ond gan fod angen cynhyrchu Cyfrifon Llywodraeth Gyfan y DU o dan safonau IFR o 2008/09 byddai hyn yn golygu gwaith ychwanegol ar gyfer staff trysorlys mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys awdurdodau tân ac achub, o 2009/10 ymlaen. Sicrhaodd yr aelodau y bydden nhw, fel yr archwilwyr penodedig, yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda chyflwyno'r newid i'r system gyfrifo newydd. Roedd KPMG mewn sefyllfa dda i gynorthwyo'r Awdurdod gyda'r broses gan ei fod eisoes wedi gweithio gyda chwmnïau yn y sector breifat oedd eisoes wedi mabwysiadu safonau'r IFR. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd Mr Lloyd y byddai'n debygol y byddai goblygiadau ariannol i'r Awdurdod o gyflwyno'r safonau newydd. Byddai'n ddoeth i'r Awdurdod felly, gynllunio ymlaen llaw er mwyn cadw costau cyn ised â phosibl. Ymgymerodd Mr Lloyd i roi gwybod i'r Awdurdod cyn gynted â phosib pa bryd y byddai'r broses newydd yn cychwyn. Sicrhaodd yr Aelodau hefyd na ddylent bryderu ynglŷn â chyflwyniad y broses.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.***

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Powell, Mr Lloyd a Ms Griffiths am fynychu, cyflwyno eu hadroddiadau ac ateb cwestiynau'r aelodau.

## 8) Monitro Perfformiad yn 2008/09 – Dangosyddion Perfformiad Drafft

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a'r atodiadau (ddosbarthwyd ymlaen llaw) oedd yn rhoi gwybod i aelodau ynglŷn â'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth osod Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer awdurdodau tân ac achub yng Nghymru. Manylodd ar gynnwys ei hadroddiad a thynnodd sylw'r aelodau at y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau drafft ac at y llythyr a anfonwyd ar ran yr Awdurdod at Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i'w ymgynghoriad ar y Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008 arfaethedig, y ddau ohonynt yn atodiadau i'r adroddiad. Rhoddodd y Prif Swyddog Cynorthwyol wybod i'r Panel nad oedd y Gorchymyn wedi dod yn ddeddf eto. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd swyddogion fod yr ymateb a anfonwyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynegi pryderon yr Awdurdod ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y Gorchymyn drafft gan gynnig atebion i rai o'r materion y tynnwyd sylw atynt. Cadarnhawyd hefyd, nad oedd

unrhyw ateb wedi ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru hyd yma. Fodd bynnag, dylai'r ffaith fod yr ymateb yn bodoli gynorthwyo'r Awdurdod pe teimlai ei fod yn cael ei fesur yn annheg o ran unrhyw un o'r Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau yn y dyfodol.

***Penderfynwyd*: - nodi'r cynnydd a wnaed wrth osod Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru fydd yn dod i rym o'r 1af Ebrill 2008.**

**9) Materion Brys**

Dim.

**RHAN II**

Dim materion.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.05am.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T.Roberts **Dyddiedig:** 28/07/08